# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 11 a 18 Gorffennaf 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

2 Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

11 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

14 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

16 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

22 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Gweinidog dros Gymru Dramor

**Nick Bourne:** Pa weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau trawsbynciol y Gweinidog dros Gymru Dramor y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu i'r Gweinidog hwnnw ymgymryd â hwy yn ystod y 12 mis nesaf? (WAQ19202)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Bydd y gweithgareddau a gyflawnir gan y Gweinidog dros Gymru Dramor yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer hyrwyddo Cymru dramor ac o fewn yr adnoddau a gytunwyd arnynt yn flaenorol.

## Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

### Dyffryn Clwyd

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffyrdd y mae polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu gwledig wedi bod o fudd i Ddyffryn Clwyd er mis Mai 1999? (WAQ18776)

*Ateb diwygiedig a roddwyd ar 16 Gorffennaf.*

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor (Michael German):** Mae Dyffryn Clwyd wedi elwa o amryw o bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru er 1999. Bod o fudd i Gymru gyfan yw nod ein polisïau.

O ran y cyfartalog drwy Gymru, mae Sir Ddinbych wedi derbyn canran uwch o gynnydd yn ei chyllid canolog yn y tair blynedd er 1999-2000.

Prosiectau yn benodol yn Nyffryn Clwyd:
- y rhaglen LEADER+ bresennol, sy'n cefnogi'r grŵp Cadwyn-Clwyd newydd.
- mae'r cynllun busnes ar gyfer Cadwyn-Clwyd wedi'i gymeradwyo ac wedi cael gwybod yn ffurfiol beth fydd ei ddyraniad ariannol.

### Mentrau sydd yn Rhan o Bortffolio'r Gweinidog

**Ann Jones:** Yn dilyn ei ateb i WAQ18776, a wnaiff y Gweinidog nodi pa rai o'r mentrau y mae'n cyfeirio atynt sydd, mewn gwirionedd, yn rhan o'i bortffolio? (WAQ19151)

**Michael German:** Arweiniodd gwall gweithdrefnol at gynnwys nifer o bwyntiau yn anghywir yn yr ateb gwreiddiol. Y pwyntiau sy'n rhan o'm portffolio yw:

- y rhaglen LEADER+ bresennol, sy'n cefnogi'r grŵp Cadwyn-Clwyd newydd.
- mae'r cynllun busnes ar gyfer Cadwyn-Clwyd wedi'i gymeradwyo ac wedi cael gwybod yn ffurfiol beth fydd ei ddyraniad ariannol.

Mae ateb diwygiedig i WAQ18776 bellach wedi'i gyflwyno.

### Mwy o Wybodaeth am Brosiectau yn Nyffryn Clwyd

**Ann Jones:** Yn dilyn ei ateb i WAQ18776, a wnaiff y Gweinidog roi mwy o wybodaeth am y pum prosiect a grybwyllir yn y pwynt bwled cyntaf? (WAQ19152)

**Michael German:** Mae'r pum prosiect y soniwyd amdanynt yn fy ateb gwreiddiol yn brosiectau buddsoddi mewnol ac, o'r rhain, mae dau wedi'u cyhoeddi'n ffurfiol. Y prosiectau hyn yw: Pachem GmbH, Y Rhyl, prosiect newydd i wneud labeli arloesol i'r diwydiant bwyd; a General Domestic Appliances Ltd, sef prosiect i ehangu ei waith gwneud nwyddau gwyn presennol ym Modelwyddan.

Carwn hefyd eich cyfeirio at yr ateb a roddwyd ar 11 Gorffennaf i'ch cwestiwn WAQ19162, sy'n rhoi manylion am y prosiectau yn Nyffryn Clwyd a dderbyniodd gymorth rhanbarthol dewisol.

### Prosiect Rhoi Cymunedau'n Gyntaf

**Ann Jones:** Yn dilyn ei ateb i WAQ18776, a wnaiff y Gweinidog roi mwy o wybodaeth am y tri phrosiect Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn etholaeth Dyffryn Clwyd, a grybwyllir yn y trydydd pwynt bwled? (WAQ19153)

**Michael German:** Ymddiheuraf am hynny. Mae'r prosiectau Rhoi Cymunedau yn Gyntaf, a nodwyd yn yr ateb gwreiddiol fel rhai yn Nyffryn Clwyd, mewn gwirionedd yn Sir y Fflint.

Mae ateb diwygiedig bellach wedi'i gyflwyno.

### Y Diciâu mewn Gwartheg

**David Davies:** Pa ganran o'r gwartheg sy'n cael eu lladd y cafwyd eu bod â'r diciâu? (WAQ19166)

**Michael German:** Rhwng Ionawr a Mai 2002, yn gynwysedig, cafwyd achosion newydd o'r diciâu mewn 226 o fuchesi yng Nghymru (un anifail neu fwy yn cael ei amau o fod â'r diciâu) ac, o'r rhain, cadarnhawyd bod 116 o fuchesi (51 y cant) â'r diciâu. Dros y cyfnod hwn, lladdwyd 1,389 o anifeiliaid fel rhai adweithiol, 33 fel rhai ag adwaith ansicr, a 201 fel rhai oedd wedi cael cyswllt uniongyrchol.

### Profion y Diciâu mewn Gwartheg

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effeithiolrwydd y rhaglen newydd ar gyfer profi y diciâu mewn gwartheg? (WAQ19167)

**Michael German:** Mae'r rhaglen dros dro ar y diciâu mewn gwartheg ar waith i leihau ymhellach y gwaith sydd wedi hel o gynnal profion a cheisio atal y clefyd rhag lledu yng Nghymru. Gwnaed cryn gynnydd ar hyn; mae'r nifer o brofion sy'n hwyr wedi disgyn o 5,135 ar 30 Tachwedd 2001 i 3,907 erbyn 31 Mai 2002—lleihad o 25 y cant.

### Hyrwyddo Cynnyrch Amaethyddol Cymru Dramor

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hyrwyddo cynnyrch amaethyddol Cymru dramor? (WAQ19168)

**Michael German:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â chyfarwyddiaeth fwyd Awdurdod Datblygu Cymru a'r Bartneriaeth Bwyd-amaeth, yn gweithio'n barhaus i helpu hyrwyddo a gwerthu cynnyrch amaethyddol o Gymru, gartref a thramor. Mae cyfarwyddiaeth fwyd yr awdurdod yn cynnig ystod o wasanaethau cefnogi i helpu cwmnïau bwyd Cymreig fynd ar ôl cyfleoedd rhyngwladol.

### Labelu a Brandio Nwyddau o Gymru

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar labelu a brandio nwyddau o Gymru? (WAQ19169)

**Michael German:** Mae cyfarwyddiaeth fwyd Awdurdod Datblygu Cymru wedi cyflwyno prosiect i ddatblygu cyfeiriad strategol clir, a sefyllfa frandio bwyd a diod o Gymru. Y nod yw rhoi delwedd glir i gynnyrch Cymreig, gyda'r hyrwyddo a'r marchnata yn gyson â'r 'Gwir Flas'.

## Prisiau Llaeth i Gynhyrchwyr

**Dafydd Wigley:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau a gymerir i gynorthwyo prisiau llaeth i gynhyrchwyr? (WAQ19170) [W]

**Michael German:** Mae pris a dderbynia ffermwyr am laeth wedi cael ei orfodi i lawr yn gyson ers hydref 2001. Y prif ffactorau dros benderfynu ar y pris isel presennol yw'r gorgynhyrchu yn y DU ynghyd â marchnadoedd gwan drwy'r byd am gynnyrch llaeth. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru na Llywodraeth y DU yn medru rheoli pris llaeth. Mae'r prisiau yn cael eu negodi rhwng y cynhyrchwyr a'r proseswyr fel mater masnachol preifat.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud pob dim o fewn ei gallu i helpu cynhyrchwyr llaeth ond nid oes yna ateb hawdd ar gael i'r broblem. Mae cyflawni'r cynllun gweithredu ar gyfer y sector llaeth yn datblygu marchnadoedd newydd, yn annog prosesu a hybu'r galw yn y farchnad. Y strategaeth yw i ychwanegu gwerth i laeth, a chystadlu ar safon nid ar bris. Mae cyfarwyddiaeth fwyd Awdurdod Datblygu Cymru yn helpu proseswyr i ddatblygu marchnadoedd a chynnyrch newydd yn ogystal â gwella effeithlonrwydd y cynhyrchu ar y ffermydd drwy ddatblygu rhwydwaith o ffermydd arddangos. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynyddu'r galw am laeth drwy ei gynllun llaeth cyfnod allweddol 1 ar gyfer disgyblion pump i saith oed yng Nghymru.

## Cyllid Cynllun Datblygu Gwledig

**Peter Rogers:** A danwariwyd ar gyllideb cynllun datblygu gwledig 2001? (WAQ19172) [R]

**Michael German:** Cafodd y cynllun datblygu gwledig ei effeithio'n andwyol gan y clwy'r traed a'r genau yn 2001, gan fod nifer o gynlluniau a weithredir fel rhan o'r cynllun yn gofyn bod ymgynghorwyr yn ymweld â ffermydd, rhywbeth nad oedd yn bosibl yn ystod yr argyfwng. Er hynny, gwariwyd €93.8 miliwn yn ystod 2001, o'i gymharu â ffigur arfaethedig o €106.4 miliwn.

## Annog y Sector Cyhoeddus i Brynu Bwyd Lleol

**Peter Black:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i annog gwasanaethau'r sector cyhoeddus i brynu bwyd lleol? (WAQ19173) [R]

**Michael German:** Yr ydym, mewn partneriaeth â chyfarwyddiaeth fwyd yr awdurdod datblygu a chyrff eraill fel y Comisiwn Cig a Da Byw, wedi ymrwymo i ymchwilio i gyfleoedd i brynu bwydydd lleol.

Yr wyf yn ymchwilio i sut y gallaf fwrw ymlaen gyda'r gwaith pwysig hwn, drwy edrych ar brofiadau gwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd i sicrhau bod unrhyw gynigion a ddatblygir yn cydymffurfio â deddfwriaeth Ewrop.

## Cemegau Amaethyddol

**Brian Gibbons:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau defnyddio cemegau amaethyddol mewn ffordd anniogel? (WAQ19174)

**Michael German:** Mae codau ymarfer amaethyddol da ar gyfer yr aer, pridd a dŵr yn rheoleiddio'r defnydd diogel o gemegau amaethyddol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyfrifol am fonitro halogi tir a dŵr a gall erlyn mewn achosion lle mae halogi wedi digwydd. Mae digwyddiadau lle mae'r cyhoedd neu ddefnyddwyr wedi dod i gysylltiad â phlaleiddiaid neu feddyginiaethau milfeddygol yn cael eu hymchwilio gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am y naill a'r Gyfarwyddiaeth

Meddyginiaethau Milfeddygol am y llall. Yng Nghymru, caiff achosion o wenwyno bywyd gwyllt neu anifeiliaid anwes drwy gamddefnydd anniogel, esgeulus neu fwriadol o gemegau amaethyddol eu hymchwilio a'u monitro gan swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o'r cynllun ymchwilio i ddigwyddiadau bywyd gwyllt.

### Mesur Lles Anifeiliaid

**Alun Cairns:** Pa rôl fydd gan y Cynulliad yn y gwaith o ddatblygu'r Mesur lles anifeiliaid? (WAQ19196)

**Michael German:** Nod Mesur iechyd anifeiliaid fyddai cryfhau a diweddaru'r ddeddfwriaeth bresennol. Daeth ymgynghoriadau gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gynnwys posibl y Mesur i ben ar 30 Ebrill, ac mae'r ymatebion yn cael eu hystyried. Mae'n bosibl mai gan y Cynulliad Cenedlaethol y byddai'r pwerau i weithredu o dan Fesur newydd, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfrannu i'r broses ddeddfu.

### Marchnadoedd Ffermwyr yng Nghymru

**Nick Bourne:** Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo marchnadoedd ffermwyr yng Nghymru? (WAQ19236)

**Michael German:** Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y marchnadoedd ffermwyr wedi tyfu'n sylweddol yng Nghymru. Mae cyfarwyddiaeth fwyd yr awdurdod datblygu, drwy'r Bartneriaeth Bwyd-amaeth, yn cefnogi nifer o gynlluniau ledled Cymru ac mae pob rhanbarth o Gymru wedi gweld datblygu marchnadoedd ffermwyr newydd.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod y gall marchnadoedd ffermwyr fod yn gyfrwng gwerthfawr i ffermwyr allu gwerthu eu cynnyrch, yn enwedig mewn ardaloedd twristiaeth ac ardaloedd â phoblogaeth niferus. Gallant hefyd helpu i ysgogi'r economi wledig a chanolfannau marchnad trefol fel ei gilydd.

### Mewnforio Cig yn Anghyfreithlon

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud ynghylch rheoli'r fasnach mewnforio cig yn anghyfreithlon i Brydain (gan gynnwys Cymru) o dramor? (WAQ19246)

**Michael German:** Cynrychiolir Llywodraeth Cynulliad Cymru ar yr holl weithgorau perthnasol ac yr wyf yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â Mrs Beckett ar y materion hyn. Mae'r Llywodraeth yn gweld cynnydd ar y cynllun gweithredu a gyhoeddwyd ym mis Mawrth.

### Cynlluniau Cymorth Busnes

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl gynlluniau cymorth busnes y mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn eu gweinyddu? (WAQ19276)

**Michael German:** Y prif gynlluniau a weinyddir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, yr ystyrir eu bod yn darparu cymorth busnes, yw: cytundebau rheoli ffermwyr a thirfeddianwyr eraill i reoli a gwarchod tir er mwyn diogelu neu wella buddiannau cadwraeth natur; cynlluniau amaeth-amgylchedd Tir Gofal a Thir Cymen; ac Adfywio (a weinyddir ar y cyd â Bwrdd Croeso Cymru) sy'n cefnogi prosiectau sy'n integreiddio twristiaeth a chyfleoedd hamdden o fewn yr amgylchedd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Gemau'r Ynysoedd

**Peter Rogers:** Pa gyswllt y mae'r Gweinidog wedi'i gael gyda Chyngor Ynys Môn o ran denu Gemau'r Ynysoedd i Ynys Môn? (WAQ19175) [R]

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Yn dilyn fy nghyfarfod â swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi £10,000 i'r cyngor i gynnal astudiaeth dichonolrwydd a fydd yn ei helpu i benderfynu a fydd yn cyflwyno bid i gynnal Gemau'r Ynysoedd yno yn 2009.

### Strategaeth Ddiwylliant

**Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt rhoi'i strategaeth ddiwylliant ar waith? (WAQ19177)

**Jenny Randerson:** Gwnaed cynnydd sylweddol ar ddarparu fy strategaeth ddiwylliant, 'Creative Future: Cymru Greadigol'. Yr wyf wedi rhoi copi o'r adroddiad ar y cynnydd hwn yn y Llyfrgell.

### Hyrwyddo Dawns

**Janet Ryder:** Sut y mae strategaeth ddiwylliant y Gweinidog yn hyrwyddo dawns yng Nghymru? (WAQ19178)

**Jenny Randerson:** Mae fy strategaeth ddiwylliant, 'Creative Future: Cymru Greadigol', yn gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru ddatblygu cynllun gweithredu newydd ar gyfer dawns. Mae wedi'i ymgorffori o fewn ei strategaeth pum mlynedd i ddatblygu'r celfyddydau rhwng 2002 a 2007, a bydd yn adolygu ac yn diweddaru ei gynlluniau presennol yn ystod 2002-03 ac yn gweithredu'r cynigion yn sgîl yr adolygiad yn 2003-04.

### Ariannu Chwaraeon yng Nghymru

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatgania ar ariannu chwaraeon yng Nghymru? (WAQ19180)

**Jenny Randerson:** O fewn y flwyddyn ariannol hon, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cymorth grant o £9.4 miliwn i Gyngor Chwaraeon Cymru. Ar ben hyn, mae'r cyngor chwaraeon yn gweinyddu'r gronfa loteri Sportlot a'i nod fydd dosbarthu dros £11 miliwn i amryw o wahanol brosiectau a fydd o fudd i chwaraeon drwy Gymru.

### Noddi Chwaraeon yng Nghymru

**Brian Gibbons:** A yw'r Gweinidog wedi rhoi cyflwyniad i gyrff masnachol am fanteision noddi digwyddiadau a sefydliadau yn y maes chwaraeon yng Nghymru? (WAQ19183)

**Jenny Randerson:** Yn ddiweddar, mynychais wobrau Sportsmatch Cymru gan annerch trawsdoriad eang o fusnesau. Pwysleisiais pa mor bwysig oedd buddsoddi mewn chwaraeon yng Nghymru, yn enwedig o ran datblygu ar lefel sylfaenol, ynghyd â'r manteision o weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy'r cynllun Sportsmatch arloesol.

### Comisiwn Ffilm De Cymru

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Gomisiwn Ffilm De Cymru? (WAQ19185)

**Jenny Randerson:** Deallaf nad yw Comisiwn Ffilm De Cymru yn rhan o'r trefniadau presennol i gomisiynu gwaith ffilm yng Nghymru fel a sefydlwyd gan Sgrîn, yr awdurdod datblygu, Dysgu ac Addysgu Cymru a'r awdurdodau unedol. Gan fod Comisiwn Ffilm De Cymru yn gweithio'n annibynnol ar drefniadau presennol Comisiwn Sgrîn Cymru, ni fyddai'n briodol imi wneud sylw ar ei weithgareddau.

### Ariannu Sianel Pedwar Cymru

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau diweddar sydd wedi bod rhyngoch chi a Gweinidogion San Steffan ynghylch ariannu Sianel Pedwar Cymru (S4C)? (WAQ19186) [W]

**Jenny Randerson:** Nid yw trefniadau ariannu S4C wedi'u datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond mae S4C yn dylanwadu ar sawl agwedd ar fywyd diwylliannol Cymru sydd yn fy mhortffolio fel Gweinidog. Ym mis Ionawr, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gefnogi cais S4C am fwy o gyllid yn adolygiad gwariant 2002. Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

### Arddangos Celf yn Gyhoeddus

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gynnydd a wnaed tuag at arddangos celf yn gyhoeddus mewn orielau ar wahân i orielau'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd? (WAQ19187)

**Jenny Randerson:** Yr wyf wedi rhoi arian ychwanegol i uwchraddio'r cyfleusterau mewn tair amgueddfa ac oriel leol fel y gallant arddangos eitemau o gasgliadau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Hefyd, mae strategaeth ddatblygu ddrafft Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnig rhwydwaith o orielau a allai gynnal arddangosfeydd, a darparu cyfleusterau i artistiaid unigol.

Yn ogystal, mae fy strategaeth ddiwylliant yn nodi y byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu oriel gelf fodern i Gymru. Mae hyn, ynghyd ag opsiynau eraill, yn cael ei ystyried ar hyn o bryd fel rhan o ymgynghoriad Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ar arddangos celf yn y dyfodol.

### Cymdeithas Pêl-droed Cymru

**Brian Gibbons:** A yw'r Gweinidog wedi cynnal trafodaethau â Chymdeithas Pêl-droed Cymru a chyrff eraill am y posibilrwydd o ffurfio mwy o academïau pêl-droed yng Nghymru? (WAQ19188)

**Jenny Randerson:** Ym mis Hydref y llynedd, sefydlais y Fforwm Pêl-droed, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Pêl-droed Cymru. Gwaith y fforwm fydd cyflwyno strategaeth fanwl ar gyfer datblygu pêl-droed i bobl ifanc yng Nghymru ac edrychaf ymlaen at dderbyn ei adroddiad yn fuan.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog restru ar ffurf tabl (a) enwau'r holl grwpiau gorchwyl a gorffen, yn nhrefn amser, a gomisiynwyd gan ei adran er mis Mai 1999 tan fis Gorffennaf 2002, (b) aelodaeth yr holl grwpiau gorchwyl a gorffen hynny ac (c) enwau unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen sydd ar y gweill? (WAQ19137)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Mae'r rhestr a roddwyd yn y Llyfrgell mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig Alun Cairns (WAQ16769) yn gyfredol o ran fy nghyfrifoldeb gweinidogol. Mae'r rhestr yn manylu ar bethau fel aelodaeth y grwpiau, dyddiadau eu sefydlu a'r gymhareb o ran dynion a merched. Ni fwriedir sefydlu mwy o grwpiau gorchwyl a gorffen ar hyn o bryd.

## Cyfrifoldebau Craidd y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog egluro rolau a chyfrifoldebau craidd y grwpiau gorchwyl a gorffen y mae ei adran ef yn ei sefydlu? (WAQ19138)

**Andrew Davies:** Sefydlir grwpiau gorchwyl a gorffen pan gyfyd angen, a ffurfir eu haelodaeth o amryw o wahanol gefndiroedd a diddordebau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r materion polisi dan sylw. Pennir y rolau a'r cyfrifoldebau craidd pan nodir bod angen clir i sefydlu grŵp o'r fath. Ni fwriedir sefydlu mwy o grwpiau gorchwyl a gorffen yn y dyfodol agos.

## Hyrwyddo Manteision Band Eang

**Alison Halford:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i roi cyhoeddusrwydd i fanteision band eang i ddarpar fusnesau a phobl sydd am ei ddefnyddio yn eu cartrefi yng ngogledd Cymru? (WAQ19139)

**Andrew Davies:** Lansiais brosiect band eang di-wifr 802.11b o'r enw 'e-fro' ar 19 Mehefin ym Methesda, a byddaf yn agor cynhadledd e-gelt gogledd Cymru yfory.

Bydd y rhaglen band eang i Gymru, a lansiwyd heddiw, yn ceisio dangos manteision band eang i'r rhai sy'n byw a gweithio yng Nghymru. Bydd yn rhoi cymorth a chefnogaeth ymarferol iddynt gyda gwneud y defnydd gorau o fand eang. Yr wyf yn llwyr gefnogi'r rhaglen honno.

Yn ogystal, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r prosiect CyflE Cymru yng ngogledd Cymru, yn ogystal â'r canolfannau cymorth busnes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn yr ardal.

## Academyddion ac Eraill yn Nelyn

**Alison Halford:** Sut yn union y bydd academyddion ac eraill yn Nelyn yn cael budd o'r £18 miliwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer band eang? (WAQ19140)

**Andrew Davies:** Yr oedd £9.9 miliwn o'r gyllideb £18.4 miliwn ar gyfer band eang i ddarparu cyfarpar aml-gyfrwng i ysgolion. Derbyniodd awdurdod addysg lleol Sir y Fflint £486,500 o'r £9.9 miliwn hwn. Yr oedd gweddill yr arian ar gyfer prynu'r rhwydwaith cenedlaethol craidd Cymreig ar ddysgu gydol oes, sy'n rhoi porthiad o 100 Mbps i bob awdurdod lleol. Mae'r manteision i ddefnyddwyr addysgol yn cynnwys:

- darpariaeth rhyngrwyd cyflym, fforddiadwy sydd 'ymlaen drwy'r amser';
- mynediad at rwydwaith asgwrn cefn cyflym a dibynadwy yn seiliedig ar bwyntiau mynediad lleol;
- lle i dyfu os bydd y porthiad o 100 Mbps yn mynd yn orlawn;
- darparwr gwasanaeth rhyngrwyd wedi'i gyllido'n ganolog. Caiff y ffi am y gwasanaeth hwn ei dalu'n ganolog gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan ryddhau cyllid i ddefnyddwyr lleol fedru ailfuddsoddi mewn rhwydweithiau lleol wrth i gytundebau presennol ddod i ben;
- y gallu i ddatblygu teleffoni trosleisio a chynadledda fideo ar sail protocol y rhyngrwyd.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn edrych ar yr opsiynau i wneud y mwyaf o'r manteision ehangach o fuddsoddi yn y rhwydwaith craidd drwy ei ddefnyddio i ddarparu cyswllt band eang ar gyfer swyddogaethau eraill sydd gan awdurdodau lleol, asiantaethau cyhoeddus ac i barciau busnes strategol.

## Defnyddio Ffibr Optig

**Alison Halford:** Pa gamau a gymerwyd gennych i sicrhau bod yr holl seilwaith angenrheidiol yn ei lle fel bod yr holl ffibr optig sydd eisoes wedi'i osod yng ngogledd Cymru ar gael i'w ddefnyddio gan y nifer mwyaf posibl o gwsmeriaid? (WAQ19141)

**Andrew Davies:** Fel y gwyddoch, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru le dros ben ar y ffibr y mae'n berchen arni ar hyd yr A55. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwahodd diddordeb a thendrau oddi wrth gwmnïau sydd wedi dangos diddordeb mewn defnyddio'r ffibr hwn at ddefnydd ehangach na rhwydwaith trafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad yn unig.

Mae trafodaethau ar waith gyda chwmni dewisol. Yr wyf yn ffyddiog y gellir dwyn y trafodaethau hyn i ben cyn gynted â phosibl, yn amodol ar ofynion statudol.

### Llinell Danysgrifio Cyflymder Uchel Iawn

**Alison Halford:** Pa gamau a gymerwyd gan y Gweinidog i sicrhau bod yr holl galedwedd/meddalwedd a brynwyd i helpu i gyflwyno band eang yn gydnaws â llinell danysgrifio cyflymder uchel iawn? (WAQ19142)

**Andrew Davies:** Mae amryw o wahanol fudiadau ledled Cymru yn gyfrifol am brynu'r cyfarpar sydd ei angen i ddiwallu eu gofynion band eang arbennig hwy. Wrth wneud hyn, nid oes amheuaeth gennyf eu bod yn sicrhau cydnawsedd gyda thechnolegau eraill y bydd angen iddynt weithio gyda'r ddarpariaeth band eang, gan gynnwys yr hyn a ddarperir gan VDSL. Oherwydd amrywiadau lleol, ni chredaf ei bod yn ymarferol na'n briodol i Lywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhywbeth a ddylai, o reidrwydd, fod yn fater o ddewis lleol.

### Grantiau Gwella Trefi ar gyfer y Rhyl, Prestatyn a Dinbych

**Ann Jones:** Yn dilyn ei ateb i WAQ18781, faint o arian sydd wedi'i neilltuo mewn rhaglenni grant gwella trefi ar gyfer y Rhyl, Prestatyn a Dinbych? (WAQ19157)

**Ann Jones:** Yn dilyn ei ateb i WAQ18781, ym mha ddulliau penodol y mae'r rhaglenni grant gwella trefi ar gyfer y Rhyl, Prestatyn a Dinbych wedi gwella'r mannau ar gyfer y cyhoedd? (WAQ19158)

**Andrew Davies:** Yn ystod blwyddyn ariannol 2001-02, gwariwyd £1.006 miliwn yn y Rhyl, Dinbych a Phrestatyn (£727,000 yn y Rhyl, £248,000 yn Ninbych a £31,000 ym Mhrestatyn) o'r gyllideb grantiau gwella trefi. Yn y flwyddyn ariannol bresennol, bydd tua £1.358 miliwn ar gael i'r tair tref.

Llynedd, gwariwyd y rhan fwyaf o'r cyllid grantiau gwella trefi yn Sir Ddinbych ar bum prosiect a gyfrannodd at welliannau yn y maes cyhoeddus, drwy:

1. adnewyddu hen westy wedi'i adael yn fflatiau o safon uchel o dan rheolaeth yn y Rhyl;
2. adnewyddu hen warws wedi'i gadael yn fusnes bywiog newydd (Roger Jones & Co.) yn y Rhyl;
3. gwelliannau i feysydd parcio cyhoeddus;
4. adnewyddu adeilad oedd gynt yn wag yn goleg cymunedol lloeren i Goleg Llandrillo; ac
5. adnewyddu a rhoi pwrpas economaidd unwaith eto i adeilad yr Hen Gartref yn Ninbych, oedd gynt yn wag.

### Menter Pentrefi a Threfi Bychain

**Ann Jones:** Yn dilyn ei ateb i WAQ18781, a wnaiff y Gweinidog roi manylion am y grantiau a gynigiwyd gan y fenter pentrefi a threfi bychain i fusnesau yn etholaeth Dyffryn Clwyd? (WAQ19159)

**Ann Jones:** Yn dilyn ei ateb i WAQ18781, a wnaiff y Gweinidog ddweud sut y mae'r grantiau menter pentrefi a threfi bychain a roddwyd i fusnesau yn Rhuthun o fudd i etholaeth Dyffryn Clwyd? (WAQ19160)

**Andrew Davies:** Dyma'r grantiau sydd ar gael yn uniongyrchol i fusnesau o dan y cynllun mentrau pentrefi a threfi bychain:

i) grant marchnata o hyd at £3,000 y prosiect hyd at uchafswm o 50 y cant,
ii) grant cystadleuol mewn busnes o hyd at £5,000 y prosiect hyd at uchafswm o 50 y cant,

iii) grant cyfrifiadurol o hyd at £500 y prosiect hyd at uchafswm o 50 y cant.

Lansiwyd y cynllun ym mis Mai eleni yn ardaloedd Rhuthun a Dinbych. Hyd yma, derbyniwyd dau gais am grantiau o dan y cynllun mentrau pentrefi a threfi bychain yn Ninbych, ac mae gweithgorau busnes ar fin cael eu sefydlu yn y ddwy dref.

Mae busnesau a grwpiau cymunedol mewn pentrefi a threfi bychain ledled gogledd Cymru yn darparu gwasanaethau sy'n hanfodol i gynnal cymunedau gwledig. Maent yn creu cyfoeth a gwaith ac yn rhan annatod o'r gymdeithas y maent yn cyfrannu iddi.

Rhaglen sy'n cydnabod y cyfraniad hwn yw'r grantiau mentrau pentrefi a threfi bychain, sy'n cynnig mesurau cymorth drwy grantiau ariannol ac yn rhoi cyngor i'r busnesau neu'r grwpiau cymunedol hynny na chawsant lwyddiant gyda ffynonellau cyllid eraill.

Mae cymorth grant a chyngor arbenigol ar gael i gwmnïau bach a chanolig eu maint ac i grwpiau cymunedol neu fusnes i'w helpu gyda chostau marchnata, cynlluniau trafnidiaeth gymunedol, gwelliannau amgylcheddol ac i'w helpu i fod yn fwy cystadleuol.

**Cymorth Rhanbarthol Dewisol yn Nyffryn Clwyd**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am swm y grant cymorth rhanbarthol dewisol a roddwyd i fusnesau yn etholaeth Dyffryn Clwyd er mis Mai 1999, ynghyd â nifer y swyddi a grëwyd gan bob grant a'r cwmnïau y rhoddwyd y grantiau iddynt? (WAQ19162)

**Andrew Davies:** Er Mai 1999, cynigiwyd grantiau cymorth rhanbarthol dewisol gwerth £12,956,000 i 23 o brosiectau yn Nyffryn Clwyd. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys cyfanswm o £45.3 miliwn o fuddsoddiad sector preifat, gyda 402 o swyddi i'w creu a 1,432 o swyddi presennol i'w diogelu o ganlyniad i'r buddsoddiad. Gan fod prosiectau cymorth rhanbarthol dewisol yn para tua thair i bedair blynedd, mae nifer o'r rhain yn dal i fynd; hyd yma, talwyd £5,473,000 o grant ac mae 1,227 o swyddi wedi'u creu a/neu wedi'u diogelu.

Ystyrir manylion y prosiectau unigol i fod yn fasnachol gyfrinachol ac ni chânt eu datgelu fel rheol. Fodd bynnag, cyhoeddir ychydig o ddata ar grantiau o £75,000 neu fwy yn 'Labour Market Trends', yn dilyn talu'r rhandaliad cyntaf y grant. Mae'r tabl canlynol yn rhestru manylion cyhoeddedig y cynigion grantiau a wnaed er Mai 1999 yn ardal Dyffryn Clwyd.

| Enw | Gwerth y Grant (£) | Prosiect / Busnes |
|---|---:|---|
| Craig Bragdy Design Ltd | 100,000 | Gwneud cynhyrchion seramig eraill |
| Pilkington Special Glass Ltd | 1,800,000 | Gwneud gwydr arall, gan gynnwys gwydr technegol |
| Pachem UK Ltd | 1,250,000 | Gwneud cynhyrchion plastig |
| B and S Electronic Services Ltd | 100,000 | Gwneud falfiau a thiwbiau electronig |
| Diehl Ako Stiftung Co. KG | 120,000 | Gwneud nwyddau trydanol domestig |
| General Domestic Appliances Ltd | 5,600,000 | Gwneud nwyddau trydanol domestig |

**Cyllid Amcan 1 yn Nyffryn Clwyd**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am sut y mae cyllid Amcan 1 yn cael ei wario yn etholaeth Dyffryn Clwyd? (WAQ19163)

**Andrew Davies:** Mae Amcan 1 yn ariannu amryw o wahanol brosiectau sydd naill ai wedi'u lleoli yn Nyffryn Clwyd neu o fudd i drigolion yr etholaeth. Cyflwynir y prosiectau hyn drwy bartneriaeth leol Sir Ddinbych a phartneriaethau rhanbarthol Amcan 1.

Nid yw holl fanylion y defnydd a wneir o'r arian yn yr etholaeth ar gael, ond dwy enghraifft o'r nifer o brosiectau sy'n cael effaith ar bobl yn Nyffryn Clwyd yw cronfa allweddol wledig Sir Ddinbych, sy'n hyrwyddo datblygiad economaidd yn lleol gyda £183,000 o arian cronfeydd strwythurol, a'r gwelliannau i brosiect ymwelwyr â Rhuddlan, a dderbyniodd grant o £245,000.

### Cyllid Amcan 1 yn Nyffryn Clwyd

**Ann Jones:** Hyd yma, faint o gyllid Amcan 1, (a) sydd wedi'i neilltuo ar gyfer, a (b) sydd wedi'i wario yn etholaeth Dyffryn Clwyd? (WAQ19164)

**Andrew Davies:** Ni chedwir y wybodaeth ar y ffurf a ofynnwyd amdani ac ni ellir cyflenwi'r wybodaeth ond am gost anghymesur. Yn Sir Ddinbych, mae cyfanswm o 26 prosiect gan bartneriaeth leol Amcan 1 y Sir, sy'n cynnwys Dyffryn Clwyd, wedi'u cymeradwyo hyd yma, gan ymrwymo cyfanswm o £6.9 miliwn o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Ceir hefyd prosiectau a gyflwynwyd drwy'r gwahanol bartneriaethau rhanbarthol a fydd yn gwario arian yn ardal y bartneriaeth hon.

### Adeilad y Senedd ym Machynlleth

**Nick Bourne:** A wnaiff Llywodraeth Cymru roi arian i wella adeilad y senedd ym Machynlleth? (WAQ19245)

**Jenny Randerson:** Nid yw adeilad y Senedd ym Machynlleth ym mherchnogaeth gyhoeddus, ond fe'i rhestrwyd yn Radd I oherwydd ei phwysigrwydd mawr i hanes Cymru. Mae grantiau gan Cadw ar gyfer prosiectau atgyweirio hanesyddol ar gael i adeiladau y bernir iddynt fod yn eithriadol oherwydd eu cysylltiadau hanesyddol neu bensaernïol a, gan ddibynnu ar amgylchiadau unrhyw brosiect a roddir gerbron gan ei berchnogion, gall arian datblygu fod ar gael o ffynonellau eraill hefyd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Rhaglen Adnewyddu Cyfalaf Cymru Gyfan

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y cyllid a neilltuwyd i ysgolion Dyffryn Clwyd o'r rhaglen adnewyddu cyfalaf Cymru gyfan? (WAQ19156)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Ni fedraf roi ffigurau yn ôl etholaeth. Rhoddir dyraniadau grant i wella adeiladau ysgolion i awdurdodau lleol, a mater iddynt hwy yw penderfynu pa ysgolion a fydd yn elwa mewn unrhyw flwyddyn yn ôl anghenion a blaenoriaethau lleol.

### Y Gweinidog dros Gymru Dramor

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a fydd y Gweinidog dros Gymru Dramor yn cynrychioli Cymru yng nghyswllt y swyddogaethau yr ydych chi'n atebol amdanynt, a pha gyllideb sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y gweithgareddau hynny? (WAQ19200)

**Jane Davidson:** Fe'ch cyfeiriaf at ateb Prif Weinidog Cymru i WAQ19202.

### Gwariant ar Ddisgyblion yng Nghymru a Lloegr

**Nick Bourne:** A gafwyd cyfrif ar wahân erioed o sefyllfa Llundain yng nghyswllt gwariant y pen ar ddisgyblion yng Nghymru a Lloegr, naill ai cyn dyddiau'r Cynulliad Cenedlaethol neu ers ei sefydlu? (WAQ19216)

**Jane Davidson:** Mae Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad wedi ystyried dadansoddiad o gyllid ysgolion yng Nghymru a Lloegr am 2001-02 yn Rhagfyr 2001. Mae manylion y dadansoddiad hwn ar gael ar safle mewnrwyd y Cynulliad fel a ganlyn:

Papur:
http://assembly/committees/EducationandLifeLongLearningCommittee/2001/19-01%20(12%20Dec)/ELL%2019-01(p.9)a_e.html

Tablau:
http://assembly/committees/EducationandLifeLongLearningCommittee/2001/19-01%20(12%20Dec)/ELL%2019-01(p.9)b_e.pdf

Dangosai tabl 2 o'r dadansoddiad bod awdurdodau addysg lleol Cymru, yn 2001-02, wedi gwario mwy fesul disgybl ar wasanaethau ysgol na phob un o ardaloedd Lloegr ar wahân i'r rhai metropolitan, ond llai nag yn Llundain a'r ardaloedd metropolitan yng ngorllewin canolbarth Lloegr a'r gogledd-orllewin.

Yng Nghymru ar gyfartaledd, gwariwyd £3,134 y disgybl ar wasanaethau ysgol yn 2001-02, a £3,177 yn Lloegr. Ac eithrio canol dinas Llundain, a wariodd £4,025 ar bob disgybl, a'r tu allan i Lundain a wariodd £3,421 ar bob disgybl, daw'r cyfartaledd ar gyfer Lloegr i £3,095 y disgybl, sy'n is nag yng Nghymru.

Bydd dadansoddiad cymharol tebyg yn cael ei wneud am 2002-03 pan fydd y ffigurau ar gael yn yr hydref.

### Penderfyniad Coleg Powys i Roi'r Gorau i Gyrsiau

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw sylwadau ynghylch penderfyniad Coleg Powys i roi'r gorau i gynnal cyrsiau yn Aberhonddu, Llandrindod a'r Drenewydd? (WAQ19218)

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi derbyn gohebiaeth yng nghyswllt y penderfyniad gan Goleg Powys i roi'r gorau i rai cyrsiau ar ei gampws yn Llandrindod. Yr wyf yn deall y cymerwyd y penderfyniad mewn ymateb i ddiffyg galw am rai cyrsiau yn Llandrindod, ynghyd â cholli cyllid Ewropeaidd ar gyfer rhai cyrsiau technoleg gwybodaeth penodol. Mae Coleg Powys wedi ymdrechu'n galed i sicrhau y gall myfyrwyr gwblhau eu hastudiaethau ac y cynigir cyrsiau addas eraill i ddarpar fyfyrwyr.

Yr wyf hefyd ar ddeall bod consortiwm cymunedol addysg a hyfforddiant Powys am gyflawni adolygiad cyffredinol o'r angen lleol am ddarpariaeth TGCh yn yr ardal. Bydd yr adroddiad a ddaw o hwnnw yn goleuo Coleg Powys a'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa, ynghylch i ba raddau y mae angen y ddarpariaeth hon yn lleol.

### Penderfyniadau Colegau Addysg Bellach yng Nghymru i Roi'r Gorau i Rai Cyrsiau

**Nick Bourne:** A oes canllawiau'n bodoli yng nghyswllt penderfyniadau gan golegau addysg bellach yng Nghymru i roi'r gorau i gynnal rhai cyrsiau? (WAQ19219)

**Jane Davidson:** Mae sefydliadau addysg bellach yn gyrff annibynnol, awtonomaidd sy'n gyfrifol am reoli eu hunain, gan gynnwys yr ystod o gyrsiau a gynigir i ddiwallu anghenion y dysgwyr yn yr ardaloedd a wasanaethir ganddynt.

Er bod sefydliadau yn gyfrifol am eu penderfyniadau cwricwlaidd eu hunain, mae'n rhaid iddynt geisio gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r arian cyhoeddus a roddir iddynt gan y Cyngor Cenedlaethol—ELWa. Yn y cyswllt hwn, rhaid iddynt ystyried y galw am gyrsiau penodol; mae unrhyw benderfyniad i roi'r gorau i ddysgu unrhyw gwrs yn seiliedig ar asesu pa mor ymarferol yw ei gynnal o'i gymharu â'r galw am gyrsiau eraill, a'r adnoddau sydd ar gael.

Er nad oes unrhyw ganllawiau canolog yng nghyswllt rhoi'r gorau i gyrsiau gan sefydliadau addysg bellach, mae'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn gofyn bod gan bob sefydliad 'siarter myfyrwyr' sy'n

nodi'r trefniadau gwasanaeth y gall myfyrwyr ddisgwyl eu derbyn. Byddwn yn disgwyl i siarteri o'r fath nodi beth i'w wneud mewn amgylchiadau lle rhoddir gorau i ddysgu cyrsiau.

### Adroddiad Williams

**Nick Bourne:** Beth yw adwaith Llywodraeth Cymru i adroddiad Williams ar Brifysgol Cymru? (WAQ19220)

**Jane Davidson:** Mae adroddiad Williams ar Brifysgol Cymru yn bennaf yn fater i'r Brifysgol a'i haelodau. Fodd bynnag, yr wyf wedi cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Brifysgol Cymru i drafod y camau nesaf, a bydd hyn yn rhan o ddeialog barhaus.

### Grantiau Caledi

**Nick Bourne:** A yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried dyfarnu grant caledi i fyfyrwyr yng Nghymru sydd o'r un gwerth â'r ffi hyfforddi y mae'n rhaid i fyfyrwyr ei thalu? (WAQ19221)

**Jane Davidson:** Os, wrth grantiau caledi, yr ydych yn golygu grantiau sydd ar gael gan sefydliadau o'u cronfeydd caledi, rhoddir symiau o dan y grantiau hyn ar sail disgresiwn; maent yn amrywio rhwng £100 a £3,500 ac fe'u rhoddir gan sefydliadau yn ôl angen yr ymgeisydd fel y'i gwelir. Fodd bynnag, os yr ydych yn golygu grant dysgu newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, bydd ffioedd y myfyrwyr addysg uwch hynny sy'n gymwys yn cael eu talu o dan ddarpariaethau presennol eraill.

Bydd y cynllun o dan grant dysgu'r Cynulliad yn galluogi talu grantiau dysgu i'r rhai sydd fwyaf angen cymorth ariannol, ar sail prawf moddion.

### Prosiectau Meithrin

**Rosemary Butler:** Pa raglen ac arian sydd ar gael i ddatblygu prosiectau meithrin yng Nghymru? (WAQ19247)

**Jane Davidson:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb ysgrifenedig (WAQ18971) a roddais i Pauline Jarman ar 5 Gorffennaf 2002.

### Cynlluniau Cymorth Busnes

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl gynlluniau cymorth busnes y mae Dysgu ac Addysgu Cymru yn eu gweinyddu? (WAQ19275)

**Jane Davidson:** Mae'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn gweithredu tri chynllun o dan ei raglen datblygu sgiliau busnes. Maent yn cynnwys: y cynllun hyfforddi cwmnïau bach, sy'n ceisio hyrwyddo hyfforddiant mewn cwmnïau bach drwy wella arbenigedd mewnol mewn hyfforddiant a datblygu; Buddsoddwyr mewn Pobl sy'n ceisio cynyddu ymrwymiad cyflogwyr i ddatblygu eu gweithluoedd a gwella perfformiad; a datblygu rheolaeth sy'n rhoi cymorth gyda nodi anghenion datblygu a hyfforddi rheolwyr, ac sydd wedi'i anelu at gwmnïau bach a chanolig. Hefyd, mae'r Cyngor Cenedlaethol yn rhoi cymorth i ystod o gynlluniau a phrosiectau sydd â'r bwriad o gefnogi busnesau o fewn ei raglen arloesi a datblygu, gan gynnwys datblygu busnes a gweithlu a chyfrifon dysgu cwmni, sy'n ceisio helpu busnesau bach gyda dod o hyd i atebion pwrpasol i'w hanghenion o ran datblygu gweithlu ac uwchraddio sgiliau.

Nid yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru—ELWa yn cefnogi busnes yn uniongyrchol ond yn sianelu arian i'w sefydliadau addysg uwch i'w galluogi i gefnogi busnes, masnach a'r gymuned ehangach mewn gwahanol ffyrdd. Ym mis Mai eleni, daeth y cyngor cyllido â'i lu cynlluniau datblygu economaidd at ei gilydd i ffurfio'r gronfa datblygu economaidd addysg uwch. Mae'r gronfa hon yn cynnwys y cyllid blaenorol a roddwyd o dan y Gwasanaethau Hyfforddi ac Ymgynghori, Ymchwil Contract, i reolwyr masnachol mewn canolfannau arbenigedd sefydliadau addysg bellach, ac i gynlluniau deillio.

Ar wahân i hyn, mae'r cyngor cyllido hefyd yn gyfrifol am y rhaglenni Graduate Wales a Cymru Prosper Wales. Yn ychwanegol, mae'r grantiau bloc a roddir i sefydliadau addysg uwch ar gyfer ymchwil ac addysgu, yn ogystal â nifer o gynlluniau ymchwil llai, yn cyfrannu'n anuniongyrchol i'r gefnogaeth a roddir gan addysg uwch i'r gymuned fusnes.

Mae'r cyngor cyllido hefyd yn gweinyddu'r gronfa datblygu gwybodaeth, sy'n ceisio ysgogi mentergarwch a chynorthwyo gyda throsglwyddo technoleg o academia i'r byd masnachol. Gwna hynny drwy gefnogi ysgoloriaethau mentergarwch, drwy fanteisio ar gysylltiadau cyhoeddus sefydliadau a thrwy wella ymateb staff addysg bellach ac addysg uwch i fusnes.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Y Gweinidog dros Gymru Dramor

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a fydd y Gweinidog dros Gymru Dramor yn cynrychioli Cymru yng nghyswllt y swyddogaethau yr ydych chi'n atebol amdanynt, a pha gyllideb sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y gweithgareddau hynny? (WAQ19198)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at ateb Prif Weinidog Cymru i WAQ19202.

### Cysylltiadau Ffyrdd rhwng y Gogledd a'r De

**Nick Bourne:** Pa sylwadau a gafwyd yng nghyswllt y gwelliannau i'r cysylltiadau ffyrdd rhwng y Gogledd a'r De? (WAQ19226)

**Sue Essex:** Er Gorffennaf 2001 atebais saith cwestiwn gan y Cynulliad a derbyniais 24 llythyr (wyth gan Aelodau'r Cynulliad, 12 gan aelodau o'r cyhoedd a phedwar gan awdurdodau lleol ac adrannau eraill o'r Llywodraeth) ar gysylltiadau ffyrdd rhwng y Gogledd a'r De.

### Mesurau Lleddfu Traffig yng Nghrucywel

**Nick Bourne:** Pa gynigion sydd ar y gweill ar gyfer mesurau lleddfu traffig yng Nghrucywel? (WAQ19227)

**Sue Essex:** O fewn y ddwy flynedd diwethaf, mae mesurau lleddfu traffig ar waith ar y ddwy ffordd i mewn i'r dref. Mae'r rhain yn cynnwys ynysoedd, marciau ffordd, gwell a mwy o arwyddion a chroesfan sebra newydd yng ngorllewin y dref wrth ymyl yr ysgol.

Ni fwriedir cyflwyno unrhyw fesurau lleddfu traffig pellach yng Nghrucywel.

### Cefnffordd yr A40 drwy Grucywel

**Nick Bourne:** Pa asesiadau sydd wedi'u gwneud o lif y traffig a faint o draffig sy'n teithio ar gefnffordd yr A40 drwy Grucywel, ac a wnaiff y Gweinidog eu cyhoeddi ? (WAQ19228)

**Sue Essex:** Yn 2001, cafwyd 9,755 o gerbydau ar hyd cefnffordd yr A40 drwy Grucywel bob dydd. Mae llawer o'r traffig hwn yn cychwyn neu'n gorffen siwrneiau o fewn y dref ei hun ac, o'r herwydd, nis gellir disgrifio'r traffig hwn fel traffig trwodd. Byddai angen cynnal arolygon cychwyn a gorffen siwrne manwl i benderfynu pa gyfran o'r traffig hwn oedd yn teithio drwy'r dref ei hun.

## Traffig sy'n Teithio drwy Raeadr Gwy

**Nick Bourne:** Pa asesiadau sydd wedi'u gwneud o lif y traffig a faint o draffig sy'n teithio drwy Raeadr Gwy, ac a wnaiff y Gweinidog eu cyhoeddi? (WAQ19229)

**Sue Essex:** Yn 2001, cafwyd 3,412 o gerbydau ar hyd cefnffordd yr A470 i'r de o Raeadr bob dydd. Mae llawer o'r traffig hwn yn cychwyn neu'n gorffen siwrneiau o fewn y dref ei hun ac, o'r herwydd, nis gellir disgrifio'r traffig hwn fel traffig trwodd. Byddai angen cynnal arolygon cychwyn a gorffen siwrne manwl i benderfynu pa gyfran o'r traffig hwn oedd yn teithio drwy'r dref ei hun.

## Traffig sy'n Teithio drwy Landrindod

**Nick Bourne:** Pa asesiadau sydd wedi'u gwneud o lif y traffig a faint o draffig sy'n teithio drwy Landrindod, ac a wnaiff y Gweinidog eu cyhoeddi? (WAQ19230)

**Sue Essex:** Yn 2001, cafwyd 5,850 o gerbydau ar hyd cefnffordd yr A483 i'r de o Landrindod yn Hawau bob dydd, a 5,896 o gerbydau ychydig i'r de o'r dref yn Crossgates bob dydd. Mae llawer o'r traffig hwn yn cychwyn neu'n gorffen siwrneiau o fewn y dref ei hun ac, o'r herwydd, nis gellir disgrifio'r traffig hwn fel traffig trwodd. Byddai angen cynnal arolygon cychwyn a gorffen siwrne manwl i benderfynu pa gyfran o'r traffig hwn oedd yn teithio drwy'r dref ei hun.

## Severn Trent Water (Ceisiadau)

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn unrhyw geisiadau gan Severn Trent Water i ddatblygu neu ehangu cronfeydd dŵr Cwm Elan, ac os felly, a all hi fanylu ar hyn? (WAQ19251)

**Sue Essex:** Nid wyf i nac unrhyw un o'r cyrff cyfrifol wedi derbyn unrhyw gais gan Severn Trent Water i ddatblygu nac ehangu'r cronfeydd dŵr yng Nghwm Elan.

## Severn Trent Water (Trafodaethau)

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Gweinidog a Severn Trent Water ynghylch datblygu, ehangu neu gynllunio cronfeydd dŵr yng Nghwm Elan? (WAQ19260)

**Sue Essex:** Ni chefais unrhyw drafodaeth gyda Severn Trent Water ynghylch datblygu, ehangu neu gynllunio cronfeydd dŵr yng Nghwm Elan. O ganlyniad i'r sylw diweddar yn y wasg, mae fy swyddogion wedi siarad gyda Brian Duckworth, rheolwr gyfarwyddwr Severn Trent Water, ac mae ef wedi cadarnhau nad oes ganddo ef na'i gwmni, na Water UK, unrhyw gynlluniau i ddatblygu cronfa ddŵr newydd nac i ehangu unrhyw un o'r cronfeydd presennol yng Nghwm Elan.

Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r corff sy'n gyfrifol am reoli adnoddau dŵr yng Nghymru. Yn 2001 cyhoeddodd ei strategaeth adnoddau dŵr i Gymru, oedd yn edrych ar y galw am ddŵr yn y dyfodol ynghyd â faint o adnoddau oedd ar gael ar hyn o bryd. Cawsai'r prif ffactorau ansicrwydd fel newid hinsawdd a newid gwerthoedd o fewn cymdeithas hefyd eu profi ymhell i'r dyfodol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd angen cynllun i ehangu cronfa ddŵr Craig Goch i ddiwallu unrhyw anghenion yng Nghymru a thu hwnt.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog restru ar ffurf tabl (a) enwau'r holl grwpiau gorchwyl a gorffen, yn nhrefn amser, a gomisiynwyd gan ei hadran ers mis Mai 1999 tan fis Gorffennaf 2002, (b) aelodaeth yr holl grwpiau gorchwyl a gorffen hynny ac (c) enwau unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen sydd ar y gweill? (WAQ19135)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Mae manylion y grwpiau gorchwyl a gorffen a gomisiynwyd o fewn fy mhortffolio wedi'u gosod allan yn y tabl amgaeëdig, a gallaf gadarnhau na fwriedir sefydlu unrhyw grwpiau newydd ar hyn o bryd. Nid yw fy ateb yn cynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen a sefydlwyd o dan y cyngor partneriaeth.

**Grwpiau gorchwyl a gorffen a sefydlwyd rhwng Mai 1999 a Gorffennaf 2002**

| Enw'r Gweithgor | Dyddiad ei sefydlu | Dyddiad y daeth i ben | Aelodau o'r Grwp |
|---|---|---|---|
| Pedwar Grwp Gorchwyl a Gorffen Strategaeth Tai<br><br>Grwp 1 | Medi 1999 | Ebrill 2000 | Louise Barnden, Sefydliad Siartredig Tai Cymru<br>Malcolm Boorer, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Mike Cuddy, Awdurdod Datblygu Cymru<br>David Davies, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig<br>Terry Hennegan, Ffederasiwn Tenantiaid Cymru<br>Gareth Hughes, Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru<br>Michael Sant, Sefydliad Brenhinol dros Gynllunio Tref ol<br>Gareth Williams, Ffederasiwn Adeiladwyr Tai<br>Robert Williams, Cydffederasiwn Adeiladu |
| Gweithgor 2<br>Tai preifat | Medi 1999 | Ebrill 2000 | Yr Athro Peter Williams, Cadeirydd y Cyngor Benthycwyr Morgeisi<br>Dr Robert Smith, Canolfan Rheoli a Datblygu Tai, Prifysgol Caerdydd<br>John Lambert, Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru<br>Thomas George, Residential Property Management<br>Robert Howard, Ffederasiwn Tenantiaid Cymru<br>John Puzey, Shelter Cymru<br>Wendy Bourton, Gofal a Thrwsio Cymru<br>Robert Mitchard, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Philip Toms, Ffederasiwn Adeiladwyr Tai<br>Peter Laing, Cymdeithas Adeiladu'r Principality<br>Andrew Bowden, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (Cymru)<br>David Dixon, Ysgol y Gyfraith Caerdydd<br>Mike Friel, Canolfan Cymorth Tai Caerdydd<br>Aled Davies, Cyngor Sir Gwynedd |
| Gweithgor 3<br>Tai cymdeithasol cynaliadwy ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain | Medi 1999 | Ebrill 2000 | Keith Edwards, Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru<br>David Hedges, Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru<br>Rhian Thomas, Sefydliad Siartredig Tai<br>Steve Partner, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Winnie Davies, Ffederasiwn Tenantiaid Cymru<br>Sarah Centelo, Cymorth i Fenywod Cymru |

| Enw'r Gweithgor | Dyddiad ei sefydlu | Dyddiad y daeth i ben | Aelodau o'r Grwp |
|---|---|---|---|
| Gweithgor 4<br>Cartrefi diymgeledd | Medi 1999 | Ebrill 2000 | Yr Athro David Clapham, Canolfan Rheoli a Datblygu Tai, Prifysgol Cymru<br>Lynda Bransbury, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>John Lambert, Ffederasiwn Tai Cyswllt Cymru<br>John Puzey, Shelter Cymru<br>Sarah Cantelo, Cymorth i Fenywod Cymru<br>Sharon Mainwaring, Gofal a Thrwsio Cymru<br>Jackie Dix, Gofal i'r Henoed<br>Graham Findlay, Anabledd Cymru<br>Monica Keeble, Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru<br>Ashley Williams, Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru<br>Neil Sullivan, Cymdeithas Ymgynghori a Chyfranogi Cymru Gyfan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Pobl Ddu ac Ethnig<br>Allen Wilson, Awdurdod Iechyd Morgannwg<br>Mandy Acres, Ffederasiwn Tenantiaid Cymru<br>Maureen Campbell, Canolfan y Gyfraith Caerdydd |
| Aelodau gweithgor adolygu cynlluniau gweithredu strategaethau tai | Ionawr 2001 | Ebrill 2001 | Stephen Phipps, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>James Watkins, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Geraldine Newbery, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Steve Thomas, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Alan Morgan, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Mohammed Field, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>David P Lewis, Cyngor Sir Gwynedd (yn cynrychioli awdurdodau lleol)<br>Keith Reeve, Cyngor Benthycwyr Morgeisi<br>Gareth Williams, Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (yn cynrychioli adeiladwyr tai preifat)<br>Frances Beecher, Llamau (yn cynrychioli'r sector preifat)<br>Terry Henneghan, Cymdeithas Tenantiaid Cymru<br>Keith Edwards, Sefydliad Siartredig Tai<br>Rhian Thomas, Sefydliad Siartredig Tai<br>Mike Harmer, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>John Gwyn Jones, Cymdeithas Tai Clwyd Cyf—Chair of Welsh Housing Federation<br>Prof. Peter Williams, Cyngor Benthycwyr Morgeisi<br>Andrew Heywood, Cyngor Benthycwyr Morgeisi<br>Steve Tucker, Partneriaethau Lovell<br>Martin Lloyd, Lloyd Williams |
| Comisiwn Digartrefedd | Ionawr 2001 | Awst 2001 | Peter Black, AC, Y Dirprwy Weinidog dros Lywodraeth Leol<br>Gwenda Thomas, AC, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai<br>Kirsty Williams, AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Paul Bevan, Newport Action for the Single Homeless (Ymgynghorydd i'r Comisiwn)<br>Libby Burn, Pembrokeshire Action for the Single Homeless<br>Steve Gamgee, Cymuned Wallich Clifford<br>Angela Hoare, Barnardo's Cymru<br>Paul McHugh, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru<br>Mutale Nyoni, Black Association of Women Step Out<br>Bridget Price, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>John Puzey, Shelter Cymru<br>Phil Roberts, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Malcolm Russell, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Grwpiau gorchwyl a gorffen trefniadau etholaethol y Comisiwn llywodraeth leol | Mehefin 2001 | Gorffennaf 2002 | Yr Athro Eric Sunderland<br>Charlotte Williams<br>Tony Roberts<br>Jacky Tonge<br>Alun Williams<br>Martha Ann Eleri Ebenezer<br>Yr Arglwydd Thomas o Gresffordd QC<br>Angharad Closs Stephens<br>Mari James |
| Gweithgor y Model Tai Cymunedol Cydfuddiannol | Hydref 2001 | Ionawr 2002 | Andrew Heywood, Swyddog Polisi, Cyngor Benthycwyr Morgeisi<br>FfCTC, Cyfarwyddwr Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru<br>Keith Reeve, Cymdeithas Adeiladu Nationwide<br>Keith Edwards, Cyfarwyddwr y Sefydliad Siartredig Tai<br>Simon Jones, Prif Weithredwr Canolfan Gydweithredol Cymru Cyf<br>Carol Kay, Cyfarwyddwraig Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid |

| Enw'r Gweithgor | Dyddiad ei sefydlu | Dyddiad y daeth i ben | Aelodau o'r Grwp |
|---|---|---|---|
| | | | Nic Bliss, Cydffederasiwn Tai Cydweithredol<br>Rukhsana Nabi, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Tai Bower Mattin<br>Jeff Zitron, Cyfarwyddwr ac Ysgrifennydd Cwmni HACAS Chapman Hendy<br>Malcolm Temple, Beha Williams Norman Ltd<br>Andrew Bowden, Cyngor Bwrdeustref Sirol Conwy<br>Arnold Phillips, Cyngor Dinas Abertawe |
| Grwp gorchwyl a gorffen i ddatblygu canllawiau llywodraeth leol o dan y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf | Ionawr 2002 | Mai 2002 | Lynda Bransbury, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Derith Powell, Datblygiad Cymunedol Cymru<br>Rhys Jones, Cyngor Sir Ynys Môn<br>Peter Mortimar, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>James Cawley, Cyngor Bro Morgannwg<br>Brian Adcock, Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd<br>Andrew Bowden, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Trevor Samuel, Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>Lynne Schofield, Llywodraeth Cynulliad Cymru |

## Rolau a Chyfrifoldebau Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog egluro rolau a chyfrifoldebau craidd y grŵp gorchwyl a gorffen y mae ei hadran hi yn ei sefydlu? (WAQ19136)

**Edwina Hart:** Mae rolau a chyfrifoldebau craidd y grwpiau gorchwyl a gorffen a sefydlwyd o dan fy mhortffolio i wedi'u gosod yn y tabl isod.

**Grwpiau gorchwyl a gorffen a sefydlwyd rhwng Mai 1999 a Gorffennaf 2002**

| Enw'r Gweithgor | Dyddiad ei sefydlu | Dyddiad y daeth i ben | Rôl a Chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| Rôl a Chyfrifoldeb.<br>Pedwar Grŵp Gorchwyl a Gorffen Strategaeth Tai<br><br>Grwp 1 | Medi 1999 | Ebrill 2000 | 1. I ystyried y materion (a'r cynigion)a nodir yn 'Fframwaith ar gyfer Strategaeth Dai Genedlaethol i Gymru' ac i ddatblygu cynigion polisi rhesymegol am ystyriaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer eu cynnwys mewn strategaeth dai genedlaethol.<br>2. Dylai'r cynigion:<br>• fod wedi'u fframio o fewn swyddogaethau a phwerau deddfwriaethol presennol y Cynulliad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Lle mae'r cynigion yn gofyn am weithredu y tu allan i swyddogaethau a/neu bwerau'r Cynulliad (e.e. newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol) dylid nodi hyn ar wahân;<br>• roi sylw i lefel yr adnoddau a ddyranwyd i'r Cynulliad yn yr arolwg o wariant cyhoeddus, a faint o'r adnoddau hyn y bydd y Cynulliad yn realistig yn eu rhoi i weithredu polisïau tai yng ngoleuni blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd;<br>• fod wedi'u cysylltu'n effeithiol (cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bosibl) i gynigion sy'n cael eu datblygu gan weithgorau strategaethau tai eraill; a<br>• fod wedi'u gosod allan yn nhrefn blaenoriaeth ac yn ôl lefel eu pwysigrwydd a'r amserlen ar gyfer eu gweithredu. |
| Gweithgor 2<br>Tai Preifat | Medi 1999 | Ebrill 2000 | |
| Gweithgor 3<br>Tai Cymdeithasol Cynaliadwy ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain | Medi 1999 | Ebrill 2000 | |
| Gweithgor 4<br>Cartrefi Diymgeledd | Medi 1999 | Ebrill 2000 | |
| Aelodau gweithgor adolygu cynlluniau gweithredu strategaethau tai | Ionawr 2001 | Ebrill 2001 | Cynnal astudiaeth o'r broses o gynhyrchu strategaethau tai a chynlluniau gweithredu gan awdurdodau lleol er mwyn gwerthuso:<br>• gwir gyfraniad a chyfraniad potensial y broses o gynhyrchu strategaethau tai a chynlluniau gweithredu i gyflawni: y nodau strategol yn 'GwellCymru.com', y mesurau sydd yn rhaglen fusnes flynyddol y Llywodraeth, ac amcanion strategaeth dai genedlaethol Cymru;<br>• gwir effeithlonrwydd, ac effeithlonrwydd potensial y strategaeth dai a'r cynllun gweithredu fel cyfrwng cynllunio strategol i gyflawni swyddogaethau tai awdurdodau lleol, a'u cyfraniad gyda sicrhau eu bod yn cwrdd â'u cyfrifoldebau o hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac economaidd eu hardaloedd; a<br>• sut y gellir integreiddio'r strategaeth dai a'r cynllun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gweithredu yn fwyaf effeithlon ac effeithiol o fewn cyfrifoldebau ehangach awdurdodau lleol dros gynllunio cymunedau a chyflawni Gwerth Gorau. |
| Comisiwn Digartrefedd | Ionawr 2001 | Awst 2001 | Bydd y Comisiwn yn cynghori'r Cynulliad ar:<br>a) Ddarparu amcanion 'GwellCymru.com' i leihau (erbyn 2003) y 'nifer o deuluoedd digartref sy'n byw mewn tai dros dro i lai na 500', 'i ddileu'r angen i neb orfod cysgu ar y stryd', ac 'i wella mynediad at wasanaethau iechyd i rai sy'n cysgu ar y stryd ac i'r digartref'.<br>b) Symud ymlaen gyda'r argymhellion yn adroddiad y Cynulliad 'Cysgu ar y Stryd yng Nghymru' ac argymhellion y gweithgorau strategaeth dai ar ddigartrefedd a chysgu ar y stryd.<br>c) Darparu strategaethau digartrefedd lleol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.<br>ch) Gosod targedau a phennu canlyniadau.<br>d) Mesur digartrefedd a chysgu ar y stryd—ac ymchwilio i'r dulliau a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol i gyfrif y bobl oedd yn cysgu ar y stryd ar noson y cyfrifiad yn 2001.<br>dd) Yr opsiynau ar gyfer cyllido gwasanaethau digartrefedd yn y tymor hir yng Nghymru, yn enwedig yng nghyswllt 'Cefnogi Pobl'<br><br>Ei orchwylion oedd:<br>a) Mapio'r wybodaeth gyfredol ar ddigartrefedd a chysgu ar y stryd yng Nghymru.<br>b) Dyfeisio methodoleg gyffredin ar gyfer cyfrif y nifer o bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Nghymru.<br>c) Ystyried diffiniadau ar gyfer digartrefedd a chysgu ar y stryd a chynnig diffiniadau i Gymru.<br>ch) Ystyried sut i fonitro digartrefedd sengl ar draws Cymru.<br>d) Ystyried targedau (a pha mor ymarferol yw'r targedau hynny) a chanlyniadau ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd a chysgu ar y stryd yng Nghymru.<br>dd) Adolygu a gwerthuso arferion gorau gyda mynd i'r afael â digartrefedd a chysgu ar y stryd, a chyhoeddi adolygiad ar wefan y Cynulliad.<br>e) Datblygu strategaeth digartrefedd enghreifftiol i awdurdodau lleol. |
| Grwpiau gorchwyl a gorffen trefniadau etholaethol y Comisiwn llywodraeth leol | Mehefin 2001 | Gorffennaf 2002 | Cylch gorchwyl gwaith y Comisiwn yw:<br><br>I nodi amcanion ar gyfer system etholaethol i lywodraeth leol yng Nghymru, gan roi ystyriaeth i'r holl ffactorau sy'n berthnasol ym marn y Comisiwn, gan gynnwys:<br>• y nifer sy'n pleidleisio mewn etholaethau llywodraeth leol;<br>• i ba raddau y gall pob aelod etholedig gynrychioli ei etholwyr ef neu hi mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu disgwyliadau'r etholwyr;<br>• i ba raddau y gall y cyngor cyfan adlewyrchu'r amrywiaeth o ddiddordebau a gwerthoedd sydd yn y gymuned leol;<br>• i ba raddau y gall y cyngor ddarparu arweinyddiaeth effeithiol ac agored sy'n adlewyrchu dewisiadau etholaethol yr etholwyr; ac<br>• i ba raddau y gall y cyngor ddarparu trefniadau effeithiol i graffu a dal ei arweinyddiaeth yn atebol.<br><br>I roi ystyriaeth i'r datblygiadau mewn rheolaeth wleidyddol yn sgîl Deddf Llywodraeth Leol 2000; y mathau o reolaeth sy'n ofynnol iddynt fod yn effeithiol, yn agored ac yn atebol, gyda chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau yn cael ei ddirprwyo'n glir a chyda threfniadau effeithiol ar gyfer craffu ac atebolrwydd.<br><br>I roi ystyriaeth i'r amrywiaeth o amgylchiadau daearyddol sydd gan gynghorau yng Nghymru: amrywiaeth o ran maint a natur wasgarog y boblogaeth, a'r berthynas rhwng ardaloedd etholaethol a chymunedau naturiol.<br><br>I roi ystyriaeth i'r traddodiad mewn rhannau o Gymru lle mae aelodau etholedig yn annibynnol i bleidiau gwleidyddol.<br><br>I wneud argymhellion ar y tymor etholiadol, h.y., dros ba gyfnod o amser y dylid ethol cynghorydd.<br><br>I wneud argymhellion ar a ddylid ethol cyngor cyfan ar yr un |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | pryd, neu a ddylid trefnu etholiadau fel mai ond cyfran o'r cyngor sy'n cael ei ethol ar unrhyw adeg.<br><br>I ystyried gwneud argymhellion ar y trefniadau etholiadol, gan roi sylw i'r ystyriaethau sy'n cael eu cyflawni gan y Swyddfa Gartref ar hyn o bryd:<br><br>• amseriad etholiadau lleol<br>• lleoliad gorsafoedd pleidleisio<br>• y potensial ar gyfer cynyddu pleidleisio drwy'r post<br>• y potensial ar gyfer pleidleisio'n electronig<br><br>I wneud argymhellion ar y system etholiadau, gan roi sylw i unrhyw system sy'n berthnasol ym marn y Comisiwn, gan gynnwys<br><br>• y cyntaf heibio i'r postyn<br>• systemau rhestr<br>• system aelod ychwanegol<br>• ailbleidlais a phleidlais atodol<br>• pleidlais sengl drosglwyddadwy<br>• cyfuniad o ailbleidlais ac aelod ychwanegol |
| Gweithgor y Model Tai Cymunedol Cydfuddiannol | Hydref 2001 | Ionawr 2002 | Comisiynwyd model tai cymunedol cydfuddiannol gan y Cynulliad gan gwmni Twrneiod Cobbetts a'i ddatblygu ar y cyd gyda nifer o bartneriaid allweddol eraill.<br><br>Sefydlwyd gweithgor bychan i:<br><br>• gynorthwyo gyda datblygu model i Gymru; ac i<br>• adolygu dogfennau drafft ac i roi adborth i'r Cynulliad a Cobbetts.<br><br>Mae'r rheol model a sefydlwyd ar gael i unrhyw awdurdod lleol sydd am ei ystyried fel opsiwn ar gyfer trosglwyddo stoc tai sydd ym mherchnogaeth y cyngor. |
| Grwp gorchwyl a gorffen i ddatblygu canllawiau llywodraeth leol o dan y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf | Ionawr 2002 | Mai 2002 | I ddatblygu canllawiau penodol i awdurdodau lleol ar eu rôl gyda'r cynllun Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. |

### Y Gweinidog dros Gymru Dramor

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a fydd y Gweinidog dros Gymru Dramor yn cynrychioli Cymru yng nghyswllt y swyddogaethau yr ydych chi'n atebol amdanynt, a pha gyllideb sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y gweithgareddau hynny? (WAQ19201)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at ateb Prif Weinidog Cymru i WAQ19202.

### Wardeniaid Cŵn

**Alun Cairns:** Pa gamau y gall y Gweinidog eu cymryd os na fydd awdurdod lleol yn cynnig cyfleusterau wardeniaid cŵn? (WAQ19231)

**Edwina Hart:** O dan Adran 149 o Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 yng nghyswllt Cymru, mae'n ofynnol i bob cyngor sir neu fwrdeistref sirol benodi swyddog i ddelio gyda ch^wn sy'n crwydro yn eu hardaloedd hwy. Dyletswydd y cyngor dan sylw yw hyn, ac nid oes gan y Cynulliad unrhyw bwerau i fynnu bod cyngor yn penodi swyddog o'r fath os nad yw'n gwneud hynny.

### Lles Anifeiliaid

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfrifoldeb awdurdodau lleol am les anifeiliaid? (WAQ19232)

**Edwina Hart:** Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr gyfrifoldebau eang i sicrhau lles anifeiliaid fferm, domestig neu rai mewn caethiwed. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn deillio o nifer o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth fel Deddf (Rheoleiddio) Anifeiliaid Perfformio 1925, Deddf Anifeiliaid Anwes 1951, Deddf Sefydliadau Llety Anifeiliaid 1963, Deddf Sefydliadau Marchogaeth 1964 a 1970, Deddf Bridio Cŵn 1971 a 1991, Deddf (Lles) Bridio a Gwerthu Cŵn 1999, Deddf Trwyddedu Sŵs 1981 a Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976. Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaethau i awdurdodau lleol fynd i adeiladau i archwilio lles anifeiliaid, i drwyddedu adeiladau ac i gymryd camau gorfodi priodol, lle na chaiff gofynion y Deddfau hyn eu cwrdd. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar gynigion i atgyfnerthu a diweddaru'r ddeddfwriaeth bresennol ar hyrwyddo lles anifeiliaid.

**Diwygio'r System o Ethol Aelodau Llywodraeth Leol**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynigion Sunderland ynghylch diwygio'r system o ethol aelodau llywodraeth leol? (WAQ19235)

**Edwina Hart:** Mi wnes ddatganiad ar ddydd Mawrth, 16 Gorffennaf yn y Cyfarfod Llawn ar y mater hwn, ac nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at y sylwadau hynny.

**Pleidleisio drwy'r Post**

**Nick Bourne:** Pa gynigion sydd gan y Gweinidog i gynyddu'r nifer sy'n pleidleisio drwy'r post yng Nghymru? (WAQ19253)

**Edwina Hart:** Nid yw'r Cynulliad yn gyfrifol am unrhyw swyddogaeth yn ymwneud â phleidleisio drwy'r post. Gorwedd y cyfrifoldeb am gynnal pleidleisio mewn etholiadau gydag Adran yr Arglwydd Ganghellor (cyfrifoldeb yr Adran Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau oedd hyn yn flaenorol) a'r Comisiwn Etholiadol. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r ddwy adran i sicrhau y rhoddir digon o ganllawiau i swyddogion canlyniadau mewn pryd ar gyfer etholiadau'r Cynulliad. Y Comisiwn Etholiadol sy'n gyfrifol am hyrwyddo ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ynghylch materion o'r fath.

**Hysbysebu'r Ffaith y Gellir Pleidleisio drwy'r Post**

**Nick Bourne:** A all awdurdodau lleol hysbysebu'r ffaith y gellir pleidleisio drwy'r post pan anfonir y ffurflenni cofrestru etholiadol at etholwyr? (WAQ19254)

**Edwina Hart:** Mae hyrwyddo pleidleisio drwy'r post yn fater i swyddogion canlyniadau awdurdodau lleol, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau gan y Comisiwn Etholiadol.

**Annog Pleidleisio drwy'r Post**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog annog awdurdodau lleol i hysbysebu'r ffaith y gellir pleidleisio drwy'r post? (WAQ19255)

**Edwina Hart:** Byddwn yn annog gweithgareddau gan awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth ynghylch materion etholiadol, gan gynnwys pleidleisio drwy'r post.

**Adroddiad Sunderland**

**Nick Bourne:** A yw Llywodraeth Cymru yn derbyn adroddiad y mwyafrif yn adroddiad Sunderland ynghylch diwygio'r system o ethol aelodau llywodraeth leol, neu a yw'n derbyn adroddiad y lleiafrif? (WAQ19264)

**Edwina Hart:** Mi wnes ddatganiad ar ddydd Mawrth, 16 Gorffennaf yn y Cyfarfod Llawn ar y mater hwn, ac nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at y sylwadau hynny.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Byrddau Iechyd Lleol

**Alison Halford:** Sut y mae aelodau a chadeiryddion y byrddau iechyd lleol yn cael eu penodi? (WAQ19143)

**Alison Halford:** A gaiff aelodau a chadeiryddion yr holl fyrddau iechyd lleol eu hailbenodi drwy gystadleuaeth agored? (WAQ19144)

**Alison Halford:** Pa reolaethau a systemau sicrhau cydbwysedd sydd yn eu lle i wneud yn siŵr bod yr holl benodiadau i'r byrddau iechyd lleol yn cael eu gwneud mewn ffordd gytbwys a niwtral? (WAQ19145)

**Alison Halford:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gynyddu nifer y bobl ifanc ar y byrddau iechyd lleol? (WAQ19146)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Gwneir pob penodiad ac ailbenodiadau i gadeiriau byrddau iechyd lleol yn unol â'r egwyddorion sefydlog ar gyfer penodiadau cyhoeddus, fel a nodir yng nghod ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar benodiadau cyhoeddus. Seilir yr egwyddorion hyn ar y brif egwyddor o gyfle cyfartal a thegwch i bawb wrth wneud penodiadau, beth bynnag fo'r oedran (nid oes uchafswm nac isafswm oed), rhyw, ethnigrwydd, crefydd neu gefndir cymdeithasol.

Gwneir penodiadau mewn modd sy'n tynnu ar geisiadau o bob sector cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r egwyddorion hefyd yn rhoi fframwaith lle mae aelodau addas o gymdeithas yng Nghymru, yn enwedig rhai o sectorau heb eu cynrychioli'n ddigonol hyd yma, yn teimlo y gallant a bod anogaeth iddynt ymgeisio. Am y rheswm hwn, mae penodiadau i gadeiriau byrddau iechyd lleol yn agored i ystod eang o ymgeiswyr.

Penodir aelodau heb fod yn swyddogion drwy brosesau sy'n seiliedig ar egwyddorion penodiadau cyhoeddus. Mae'r prosesau hyn dan drafodaeth ar hyn o bryd gyda'r cyrff enwebu perthnasol.

Mae cod ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar benodiadau cyhoeddus yn caniatáu i gadeiryddion, sydd am gael eu hailbenodi am y tro cyntaf, gael eu hailbenodi heb gyfweliad, os cawsant eu hasesu i fod yn perfformio'n foddhaol yn eu swyddi. Fodd bynnag, mae'r cod hefyd yn caniatáu i swyddi o'r fath gael eu hysbysebu'n agored yn y modd arferol.

Gwneir pob penodiad yn agored ac mae'r ethigau, egwyddorion a'r nodweddion sy'n ddisgwyliedig o bobl mewn swyddi cyhoeddus yn cael eu cymhwyso'n drylwyr a chyson lle mae aelodau o fyrddau iechyd lleol dan sylw. Bydd yn rhaid iddynt weithredu dan delerau gorchmynion sefydlog a chyfarwyddiadau ariannol y byrddau iechyd lleol. Hefyd, bydd y broses o benodi pob cadeirydd ac i swyddi heb fod yn swyddogion yn cynnwys trefniadau ar gyfer craffu a chyfranogiad gan asesydd annibynnol o'r rhestr o aseswyr achrededig sydd gan Swyddfa'r Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus.

### Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog restru ar ffurf tabl (a) enwau'r holl grwpiau gorchwyl a gorffen, yn nhrefn amser, a gomisiynwyd gan ei hadran ers mis Mai 1999 tan fis Gorffennaf 2002, (b) aelodaeth yr

holl grwpiau gorchwyl a gorffen hynny ac (c) enwau unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen sydd ar y gweill? (WAQ19147)

**Jane Hutt:** Y grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n ymwneud â materion iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yw'r grŵp gorchwyl a gorffen ar ragnodi a'r 10 grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd i symud ymlaen ar amcanion 'Gwella Iechyd yng Nghymru'. Rhoddir aelodaeth a chylch gwaith y grwpiau hyn yn llawn ar y rhyngrwyd fel a ganlyn.

Grwp gorchwyl a gorffen ar ragnodi
http://www.wales.gov.uk/subihealth/content/consultations/Prescribing/consultation_e.html

Grwpiau gorchwyl a gorffen a restrir yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru'
http://www.wales.gov.uk/healthplanonline/workinggroups/task_finishhome.htm

### Rolau a Chyfrifoldebau y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog egluro rolau a chyfrifoldebau craidd y grwpiau gorchwyl a gorffen y mae ei hadran yn eu sefydlu? (WAQ19148)

**Jane Hutt:** Mae grwpiau gorchwyl a gorffen yn rhan bwysig o'r broses ymgynghorol. Maent yn dod â mudiadau rhanddeiliaid ac arbenigwyr yn y maes at ei gilydd i wneud gwaith penodol ac i roi cyngor sy'n goleuo datblygiad polisi. Mae rolau a chyfrifoldebau y grwpiau gorchwyl a gorffen unigol ar gael ar y mewnrwyd fel a ganlyn:

Grwp gorchwyl a gorffen ar ragnodi
http://www.wales.gov.uk/subihealth/content/consultations/Prescribing/consultation_e.html

Grwpiau gorchwyl a gorffen a restrir yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru'
http://www.wales.gov.uk/healthplanonline/workinggroups/task_finishhome.htm

### Y Sector Cartrefi Gofal Annibynnol

**Ann Jones:** Yn dilyn ei hateb i WAQ18778, a wnaiff y Gweinidog roi manylion am y cyllid i gefnogi'r sector cartrefi gofal annibynnol ac i annog y mentrau cydweithio yn etholaeth Dyffryn Clwyd y cyfeirir atynt yn y trydydd pwynt bwled? (WAQ19154)

**Jane Hutt:** Ni allaf roi ffigurau manwl am Ddyffryn Clwyd, ond gallaf roi manylion am y cyllid sydd ar gael i gefnogi'r sector annibynnol, i leihau oedi wrth drosglwyddo gofal ac i annog cydweithio, ar gyfer Sir Ddinbych. Cyflwynwyd y ddau gynllun grant hwn yn 2001.

Grant ar gyfer dileu'r oedi gyda throsglwyddo gofal ac i gefnogi'r sector cartrefi gofal:

| | |
|---|---|
| 2001-02: | £129,956.00—a gafodd ei ddefnyddio bron i gyd i gefnogi'r sector annibynnol. |
| 2002-03: | £443,108.00—mae £268,000 o hwn i'w ddefnyddio i gefnogi'r sector annibynnol gyda'r £175,000 sy'n weddill i gefnogi gwasanaethau cynnal ac ailsefydlu, prosesau asesu ar y cyd, ac i roi gofal yn y cartref fel bod cleifion yn cael eu rhyddhau ar amser o ysbytai. |

Grant hyblygrwydd arbennig: i annog cydweithio.

| | |
|---|---|
| 2001-02: | £ 69,537—defnyddiwyd £19,500 o hwn i ddatblygu gwasanaeth therapi lleferydd mewn ysgolion, £16,700 i ddatblygu gwasanaeth asesu ymdrochi cymunedol ar y cyd a £33,300 i ddatblygu gwasanaethau aml-asiantaeth i'r henoed, plant ac i bobl gydag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl. |

| | |
|---|---|
| 2002-03: | £174,000—mae £142,000 o hwn i'w ddefnyddio i barhau i ddatblygu'r gwaith a ddechreuwyd yn 2001-02 a £32,000 i gyflogi Uwch Gydlynydd Gofal a allai gomisiynu gofal gan nifer o ddarparwyr gwasanaeth. |

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau i sefydlu mwy o grwpiau gorchwyl a gorffen.

**Uned Hyfforddi Ddeintyddol ym Mangor**

**Dafydd Wigley:** Pa gyllid sydd wedi'i glustnodi, o fewn ei chyllideb, ar gyfer sefydlu uned hyfforddi ddeintyddol ym Mangor? (WAQ19165) [W]

**Jane Hutt:** Tra'n adolygu cynlluniau'r gweithluoedd, canfuwyd angen i ehangu'r gwasanaeth deintyddol yn gyffredinol, ac yn fwy penodol yng ngogledd Cymru. Er hynny, byddai angen buddsoddi cyfalaf ar unrhyw ehangiad i'r gwasanaeth yng ngogledd Cymru. Cyn hir, bydd Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru yn cychwyn ar y gwaith o greu achos busnes a chaiff y materion cyllido eu hastudio ar ôl ei dderbyn.

**Cronfa Ddata Iechyd Plant i Gymru Gyfan**

**David Lloyd:** Pa gynlluniau sydd yn eu lle ar gyfer datblygu cronfa ddata iechyd plant i Gymru gyfan? (WAQ19189) [R]

**Jane Hutt:** Mae'r system iechyd plant ar hyn o bryd yn system ymddiriedolaeth o dan y GIG. Mae gwaith ar y prosiect gofynion gwybodaeth iechyd plant yn edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu cronfa ddata iechyd plant Cymru gyfan yn seiliedig ar y system iechyd plant bresennol.

**Meddygon sydd â'u Practisiau yng Nghefn Gwlad Cymru**

**David Lloyd:** Sut gwnaiff y Gweinidog yn siŵr y bydd y manteision a gynigir yn y contractau newydd i feddygon teulu ar gael i feddygon sydd â'u practisiau yng nghefn gwlad Cymru? (WAQ19191) [R]

**Jane Hutt:** Yr wyf mewn cysylltiad agos gyda chydffederasiwn y GIG a Gweinidogion Iechyd eraill y DU i sicrhau bod buddiannau holl feddygon Cymru yn cael eu hystyried. Mae cytundeb fframwaith mis Ebrill yn tynnu sylw at yr angen i ddelio gyda'r problemau arbennig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell. Bydd manylion ynghylch sut y gwneir hyn yn cael sylw yng ngham nesaf y trafodaethau o dan y cytundeb.

**Baich Gweinyddol ar Feddygon Teulu**

**David Lloyd:** Sut mae polisïau'r Gweinidog yn lleihau baich gweinyddol meddygon teulu yng Nghymru? (WAQ19192) [W] [R]

**Jane Hutt:** Gwn yn iawn am y pwysau clinigol sydd ar feddygon teulu, ac mae angen inni sicrhau nad ydym yn ychwanegu at y pwysau hynny drwy ddisgwyl iddynt ymdopi gydag amrywiaeth eang o ddyletswyddau gweinyddol.

Ym mis Mawrth 2001, cyhoeddwyd adroddiad ar y cyd gan Swyddfa'r Cabinet a'r Adran Iechyd. Yn yr adroddiad hwnnw, tynnwyd sylw at sawl maes lle gellid lleihau gwaith papur meddygon teulu. Clustnodwyd 26 maes, ac yr oedd modd gweithredu nifer ohonynt yng Nghymru. Ar ddechrau'r flwyddyn, cyhoeddwyd cylchlythyr iechyd Cymru i'r gwasanaeth yn ei hysbysu am yr adroddiad ac yn dweud y câi'r meysydd perthnasol eu gweithredu mewn rhaglen a gâi ei chyflwyno'n raddol. Gweithredwyd eisoes ar un o'r meysydd, sef rhoi tystysgrifau salwch, gwaith sy'n cael ei gydnabod fel baich dianghenraid ar feddygon teulu. Cafwyd ymgyrch cyhoeddusrwydd i hyrwyddo arfer da wrth ddelio ag absenoldeb salwch ymhlith gweithwyr. Hefyd, anfonwyd llythyr at brif weithredwyr yr

ymddiriedolaethau GIG yn eu cynghori i gynnwys tystysgrifau salwch wrth ryddhau cleifion o’r ysbyty ac wrth ddelio â chleifion allanol.

Yn ddiweddar, bu Swyddfa’r Cabinet a’r Adran Iechyd yn paratoi adroddiad arall, sy’n clustnodi 15 canlyniad newydd, i ostwng fwy fyth y lefelau o waith papur y mae’n rhaid i feddygon teulu ymdopi â hwy. Bydd fy swyddogion yn ystyried y meysydd newydd hyn gan ystyried hefyd a ellir eu gweithredu yng Nghymru.

Hefyd, mae rhaglen sylfaen mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar gael ar gyfer meddygfeydd meddygon teulu. Caiff hon ei harwain gan y gwasanaeth dros dair blynedd, ac mae’n cael arian cyfatebol gan y Cynulliad a’r GIG. Un o brif amcanion y rhaglen yw cyflwyno prosiect i sicrhau manteision cynhwysfawr a fydd yn clustnodi ac yn hyrwyddo arfer da a dulliau gwell o weithio gyda TGCh. Yn ei dro, bydd hynny’n arwain at lai o waith papur.

Caiff unrhyw bolisïau newydd a allai effeithio ar faich gwaith meddygon teulu eu trafod gyda phwyllgor y meddygon teulu a, lle bo hynny’n bosibl, bydd y baich gweinyddol yn cael ei gadw cyn lleied ag y bo modd.

### Adleoli Preswylwyr Bryn y Neuadd

**Gareth Jones:** Faint o arian y mae’r Gweinidog wedi’i glustnodi ar gyfer adleoli preswylwyr Bryn y Neuadd? (WAQ19193) [W]

**Jane Hutt:** Am y tair blynedd 2002-03 i 2005-06 yn gynwysedig, amcangyfrifir y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cyfanswm o £19.5 miliwn o gyllid mewn grantiau gofal cymdeithasol i bobl gael eu hadleoli yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys costau pontio eraill, y cytunais i’w talu yn ddiweddar, sydd ynghlwm wrth raglen adleoli Bryn y Neuadd.

### Cynllun Cenedlaethol Rheoli Gwybodaeth a Datblygu Technoleg

**David Lloyd:** Beth yw’r amserlen bresennol ar gyfer rhoi’r cynllun cenedlaethol rheoli gwybodaeth a datblygu technoleg ar waith? (WAQ19194) [R]

**Jane Hutt:** Mae’r grŵp gorchwyl a gorffen gwybodaeth, a sefydlwyd fel rhan o’r drefn weithredu ar gyfer ‘Gwella Iechyd yng Nghymru’, wedi cynhyrchu adroddiad o’r enw ‘Informing Healthcare’. Mae’n cynnwys cyflwyno achos dros newid, gweledigaeth strategol gydag argymhellion ar sut i’w gwireddu, a rhai camau nesaf i’w gweithredu ar unwaith. Fe’i cyflwynwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda chais i’w ddatblygu yn rhaglen weithredu strategol a pholisi gan y Cynulliad. Yr wyf i a’m swyddogion wrthi’n ystyried y camau nesaf.

### Ysbyty Newydd yn Ardal Dinbych-y-Pysgod

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar hynt y prosiect i adeiladu ysbyty newydd yn ardal Dinbych-y-Pysgod yn ne Sir Benfro? (WAQ19204)

**Jane Hutt:** Deallaf fod Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen wedi paratoi achos amlinellol strategol dros ailwampio Ysbyty Bwthyn Dinbych-y-Pysgod, a roddwyd gerbron bwrdd partneriaeth strategol Sir Benfro ar 18 Ebrill 2002. Cytunodd y bwrdd i’r achos amlinellol strategol, ar yr amod ei fod yn cynnwys opsiwn ychwanegol.

Mae’r ddau brif opsiwn, sy’n cynnwys is-opsiynau, yn cael eu hystyried.

Cyflwynodd Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen achos amlinellol strategol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 11 Gorffennaf ac mae hwn yn cael ei asesu ar hyn o bryd. Os caiff ei gymeradwyo, y

cam nesaf fyddai i'r ymddiriedolaeth baratoi'r achos busnes amlinellol, yn cynnwys gwerthusiad llawn o'r opsiynau ynghyd â'r opsiwn dewisol.

**Ad-drefnu'r Awdurdodau Iechyd**

**Nick Bourne:** Beth yw cost ddisgwyliedig yr ad-drefnu arfaethedig ar yr awdurdodau iechyd a'r grwpiau iechyd lleol? (WAQ19209)

**Jane Hutt:** Mae costau disgwyliedig yr ad-drefnu arfaethedig yn fy adroddiad misol i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor ar 17 Gorffennaf 2002. Cewch hyd i'r papur ar dudalennau gwe y Pwyllgor (papur HSS-16-02 tud.1).

**Ad-drefnu'r Gwasanaeth Iechyd**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r sylwadau y mae hi wedi'u derbyn ynghylch y cynigion i ad-drefnu'r awdurdodau iechyd a'r grwpiau iechyd lleol? (WAQ19210)

**Jane Hutt:** Mae ymatebion i'r ymgynghoriad strwythurol i ad-drefnu awdurdodau iechyd a grwpiau iechyd lleol a gynhaliwyd haf diwethaf wedi'u rhoi yn Llyfrgelloedd y Cynulliad ac ar gael i gydweithwyr bori trwyddynt. Rhoddwyd fy nghasgliadau ar yr ymatebion hyn mewn datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 15 Tachwedd.

**Cartrefi Gofal yn Llanrwst**

**Nick Bourne:** A ydyw'r Gweinidog wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda Chyngor Bwrdeistref Conwy ynghylch cau cartrefi gofal yn Llanrwst? (WAQ19212)

**Jane Hutt:** Naddo. Fodd bynnag yr wyf yn parhau i fonitro'r sector a gwn yn iawn am y problemau sy'n ei wynebu. Gwn hefyd am rai anawsterau lleol gyda dod o hyd i leoedd addas mewn cartrefi gofal i unigolion, yn enwedig rhai gydag anghenion arbennig, ond nad yw'r patrwm yn un cyson drwy Gymru.

Ar lefel strategol, mae grŵp strategaeth gofal Cymru yn fy nghynghori ar ac yn mynd i'r afael â'r materion strategol sy'n effeithio ar y sector gofal cyfan—boed yn ofal cartref, preswyl neu'n ofal atodol i dai. Y nod yw rhoi mwy o sefydlogrwydd a hyder i'r sector gofal yn y tymor byr, a helpu i fod yn barod i wynebu'r newidiadau mewn anghenion gofal yn y tymor canolig a hir. Bydd y grŵp hwn hefyd yn rhoi sylw i faterion hyfforddiant a datblygu busnes.

**Denu Deintyddion i Geredigion**

**Nick Bourne:** Pa ymdrech a wneir i ddenu deintyddion i Geredigion? (WAQ19213)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb Awdurdod Iechyd Dyfed Powys yw darparu gwasanaethau deintyddol yng Ngheredigion, o dan adran 35 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod gwasanaeth deintyddol o safon uchel o dan y GIG ar gael i rai sydd am ei dderbyn pa le bynnag y maen nhw'n byw, a byddaf yn parhau i helpu'r awdurdod iechyd i ddenu deintyddion drwy'r cynllun deintyddol Cymreig.

Mae'r cynllun, a lansiwyd gyntaf yn 1995, wedi'i gynllunio i ddenu deintyddion newydd i'r rhannau o Gymru lle mae eu hangen fwyaf. Mae wedi'in galluogi i gynnig lefelau cyllid digyffelyb i ddeintyddion sy'n fodlon ymrwymo'n barhaus i'r GIG.

Yn fy natganiad ysgrifenedig i Aelodau o'r Cynulliad ar 19 Mawrth, yr oeddwn yn falch o gyhoeddi ein bod wedi cyflwyno cam tri o'r cynllun. Mae'r pecyn mesurau yn cynnwys cynnydd yn y cymorth grant sylfaenol o £25,000 i £40,000 mewn ardaloedd dynodedig, grant newydd o £20,000 i sefydlu practis

hyfforddiant galwedigaethol a thaliadau i ddeintyddion sy'n dychwelyd i'r proffesiwn ar ôl absenoldeb o ddwy flynedd.

O ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth grant sydd ar gael drwy'r cynllun hwn, mae'r awdurdod iechyd wedi dweud iddo ddod i gytundeb mewn egwyddor gyda deintydd sy'n barod i agor practis newydd yn Aberystwyth.

**Denu Deintyddion i Frycheiniog a Sir Faesyfed**

**Nick Bourne:** Pa ymdrech a wneir i ddenu deintyddion i Aberhonddu a Sir Faesyfed? (WAQ19214)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb Awdurdod Iechyd Dyfed Powys yw darparu gwasanaethau deintyddol yn Aberhonddu a Sir Faesyfed, o dan adran 35 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

Fel y dywedais yn fy ateb i'ch cwestiwn ysgrifenedig WAQ19213, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod gwasanaeth deintyddol o safon uchel o dan y GIG ar gael i rai sydd am ei dderbyn pa le bynnag y maen nhw'n byw. Byddaf yn parhau i helpu'r awdurdod iechyd i ddenu deintyddion drwy'r cynllun deintyddol Cymreig.

Mae'r cynllun, a lansiwyd gyntaf yn 1995, wedi'i gynllunio i ddenu deintyddion newydd i'r rhannau o Gymru lle mae eu hangen fwyaf. Mae wedi'in galluogi i gynnig lefelau cyllid digyffelyb i ddeintyddion sy'n fodlon ymrwymo'n barhaus i'r GIG.

Yn fy natganiad ysgrifenedig i Aelodau o'r Cynulliad ar 19 Mawrth, yr oeddwn yn falch o gyhoeddi ein bod wedi cyflwyno cam tri o'r cynllun. Mae'r pecyn mesurau yn cynnwys cynnydd yn y cymorth grant sylfaenol o £25,000 i £40,000 mewn ardaloedd dynodedig, grant newydd o £20,000 i sefydlu practis hyfforddiant galwedigaethol a thaliadau i ddeintyddion sy'n dychwelyd i'r proffesiwn ar ôl absenoldeb o ddwy flynedd. Rhoddwyd hysbyseb yn y cyhoeddiad deintyddol blynyddol 'Word of Mouth' yn hyrwyddo'r mesurau hyn, ac fe'i cyhoeddir ym mis Hydref.

Er nad yw Aberhonddu a Sir Faesyfed wedi'u henwebu gan yr awdurdod iechyd fel ardal ddynodedig, mae Llanfair-ym-Muallt, Llandrindod a Presteigne wedi'u dynodi fel ardaloedd sydd angen cymorth grant. Yn anffodus, ni chafwyd yr un deintydd yn holi ynghylch symud i'r ardaloedd hyn eto.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl**

**Kirsty Williams:** Pa drefniadau fydd ar gael i gomisiynu gwasanaethau iechyd meddwl o Ebrill 2003 ymlaen? (WAQ19248)

**Jane Hutt:** Bydd byrddau iechyd lleol yn gyfrifol am gomisiynu'r holl wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol a'r rhan fwyaf o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd. Bydd Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn parhau i fod yn gyfrifol am seiciatreg fforensig a rhai gwasanaethau arbenigol eraill.

Yr wyf yn cydnabod bod angen cefnogi byrddau iechyd lleol gyda'r gwaith hanfodol hwn, a byddaf yn sicrhau y gall y swyddfeydd rhanbarthol newydd roi canllawiau a monitro perfformiad yn y maes hwn.